# TRA BYDD DAD I FFWRDD



# Tra Bydd Dad i Ffwrdd




Ysgrifennwyd gan Aimee Hutchinson

Lluniau gan Tim Powell

Argraffwyd Tachwedd 2023
Hawlfraint Pact 2023. Cedwir pob hawl

Dad ydy'r gorau am wneud
llond bath o swigod.






Mae Dad yn gwneud
pasta caws mor flasus.


Dad ydy'r gorau am wneud sŵn RHUUUUUUO.






Dad ydy'r gorau am roi
**cwtsh** wrth ddarllen.

Mae Dad yn gorfod byw yn rhywle arall am ychydig.






Mae Mam yn dweud ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le a'i fod yn gorfod aros yno i ddangos bod yn ddrwg ganddo.



Rwy'n colli Dad.



Weithiau rwy'n teimlo'n drist amser bath ac amser te gan nad yw e yno i chwarae a siarad.

Mae Mam yn dweud y dylwn i ddweud wrthi pan fydda i'n teimlo'n drist.



Mae Mam yn dweud ei bod hi'n teimlo'n drist weithiau hefyd.

Ond gallwn fynd i

weld Dad.



A canu caneuon gwirion gydag e ar y ffôn cyn gwely.





Ac anfon fy lluniau

ato yn y post.

A thra bydd e i ffwrdd



Gallaf gael amser bath
llawn swigod gydag Anti Jo.


galla i ddangos i Mam

sut rydw i'n hoffi fy

mhasta CAWS.



Ac mae Tad-cu yn eithaf da am wneud sŵn RHUUUUUO.






A bydda i'n dal i allu
cael **cwtsh** amser
stori gyda Dad.

Mae hon yn stori am ferch fach y mae ei thad yn y carchar. Gwrandewch sut mae hi'n teimlo oherwydd bod Dad i ffwrdd, beth mae hi'n ei golli fwyaf a phwy arall sydd wrth law i'w helpu i deimlo ei bod yn cael ei charu.

Mae "Tra bydd Dad i ffwrdd" yn llyfr a gynhyrchwyd gan Pact. Ewch i'n gwefan i gael mwy o syniadau ac adnoddau i helpu plant sydd â rhywun agos atynt yn y carchar.

Adnoddau eraill a gynhyrchwyd gan Pact:







Pact

Prisoners · Families · Communities
A Fresh Start Together

**www.prisonadvice.org.uk**

Pact yw'r elusen Gatholig genedlaethol sy'n cefnogi carcharorion, pobl ag euogfarnau a'u plant a'u teuluoedd. Rydym yn darparu gwasanaethau gofalgar sy'n newid bywydau ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol: yn y llys, yn y carchar, ar adeg rhyddhau, ac yn y gymuned.

Mae Pact wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr fel elusen (rhif 219278) a chwmni cyfyngedig trwy warant (rhif 356443)

ISBN: 978-0-9502388-4-5